SIAMBR FASNACH A THWRISTIATH BRO FFESTINIOG

CHAMBER OF COMMERCE AND TOURISM

MINUTES 7TH SEPTEMBER 2015 HELD AT THE BRIDGE CAFÉ , BLAENAU FFESTINIOG

COFNODION 7fed Medi 2015 A GYNHALIWYD YNG NGHAFFI'R BONT, BLAENAU FFESTINIOG

Yn bresennol: Clare Britton - Rheillffordd Ffestiniog and Eryri (Cadeirydd); Diane Lea (Ysgrifenyddes) - Plas Blaenddol; Alister Haveron - Dolawel Guest House; Rhian Williams - Teithiau Cerdded / Active Blaenau; Kevin Baldwin - Café De Niro's; Meirion Ellis - Cambrian News; Chris Fosbury - Eifion Stores; John Whitehead - Bryn Elltyd Guest House Eco; Jon Mawrth - Jon Mawrth Photographics; Gail Jordan - Gemwaith Harlequin; Owain Williams - Banc NatWest; Sue Roberts - Siop Lyfrau Sue.

Gwesteion: Mandy Williams-Davies - Cynghorydd Sir Gwynedd; Bedwyr Gwilym - Cyngor Tref; David Aylward - Myfyriwr PhD.

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, cafwyd munud o dawelwch er cof am Bob Cole a fu farw yn ddiweddar, a hefyd er cof am ei wraig a fu farw 18 mis yn ôl, y ddau ohonynt wedi gweithio'n galed iawn ar ran y Siambr a thref Blaenau Ffestiniog.

1. YMDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
   Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Steve Cunliffe - Y Pengwern; Michael Bewick - Llechwedd Slate; Johara Sykes Davies - Zipworld (yn ystod cyfnod mamolaeth Laura Jones); Jodie Catlin - Gwyliau Trawsfynydd; Iris Fosbury - Trysorydd / Eifion Stores.
2.

   COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2015.

3. MATERION YN CODI

   3.1 GEFEILLIO RAWSON (Eitem 3.1)
   Hysbysodd Bedwyr yr aelodau o'r cynllun ar gyfer dathliadau Dydd Patagonia sydd i'w cynnal yn y sgwâr ym Mlaenau Ffestiniog ddydd Sadwrn 12fed Medi i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu Rawson ar 15fed Medi 1865. Yn ogystal ag ail-enwi'r sgwâr yn Sgwâr Rawson, bydd Elvey Macdonald, a aned yn Nhrelew ac a godwyd yn y Gaiman Patagonia, yn dadorchuddio plac coffa i ddathlu'r trefeillio diweddar rhwng Rawson a Blaenau Ffestiniog. Ar ôl y dadorchuddio, bydd Elvey Macdonald yn cynnal sgwrs a thrafodaeth yn Siambr y Cyngor am Rawson a Phatagonia â'u cysylltiad unigryw gyda Chymru a'r Gymraeg. Dywedodd Bedwyr bod y Cyngor Tref wedi bod yn gweithio gyda busnesau lleol er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn thema'r digwyddiad a thrwy gydol y dydd bydd stondinau a gweithgareddau eraill yn y sgwâr.

   Hefyd, cyhoeddodd Bedwyr fod y Cyngor Tref yn lansio Ysgoloriaeth eleni ar gyfer bobl ifanc 16-30 oed mewn cysylltiad â'r trefeillio.

   3.2 CAIS AM GRANT CIST (Eitem 3.3)
   Nododd Clare nad oedd y grant CIST wedi bod y llwybr priodol i geisio am arian ar gyfer gwaith y Siambr felly byddai hi a Gail Jordan yn edrych ar ddatblygu bid, fel bydd y Siambr yn barod i gyflwyno cais pan ddeuai cyfle. Nododd Mandy Williams-Davies y ffaith fod bellach mwy o bwyslais ar "fenthyciadau" yn hytrach na "grantiau" a nodwyd hyn gan yr aelodau. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod prosiectau LEADER yn canolbwyntio ar syniadau gan fusnesau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar nodau newydd, ee mae rhai busnesau ym Mhwllheli wedi dod at ei gilydd i gynnig

£1k i helpu busnesau newydd yn y dref. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys: ystyried y posibilrwydd o'r Siambr yn ymuno â Siambr arall i wneud cais am arian ar gyfer taflen; neu ystyried cyswllt gyda'r cais Safle Treftadaeth y Byd Ardal Diwydiant Llechi Gwynedd sy'n cael ei hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd; neu gyswllt technolegol. Nodwyd y byddai "partneriaeth" yn rhan bwysig o unrhyw gais.

3.1

3.3 DHFFEST 25 a 26 Gorffennaf 2015 (Eitem 4)

Roedd Clare ac aelodau eraill o'r Siambr wedi treulio'r diwrnod yn Llechwedd yn siarad â'r beicwyr ac yn dosbarthu taflen am Flaenau Ffestiniog ac yn annog pobl i ymweld â'r dref. Byddai'n ddefnyddiol i ddod o hyd i ffyrdd ychwanegol o gysylltu â'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth, eu cefnogwyr a'r gwylwyr. Nodwyd bod Ceri Cunningham wedi newid swydd yn ddiweddar er iddo aros mlaen ar Fwrdd Antur Stiniog. Cytunwyd i gysylltu ag Antur Stiniog i holi pwy fyddai'r cyswllt â'r Siambr yn y dyfodol. GWEITHREDU: DIANE LEA

Soniwyd mai dim ond budd cyfyngedig fu i fusnesau lleol gan y Ŵyl Rhif 6 ond mae'r trefnwyr yn ystyried datblygu "pecyn diweddglo" ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn annog pobl i aros yn yr ardal ar ddiwedd yr ŵyl.

3.4 CAIS SAFLE TREFTADAETH Y BYD (Eitem 4.7)

Dywedodd Mandy fod y cam nesaf o'r broses cais yn cael ei gyflwyno y mis hwn gan Gyngor Gwynedd yn y gobaith o gyrraedd y cam nesaf.

3.5 PARCIO CEIR YN BLAENAU FFESTINIOG (Eitem 4.6)

Llongyfarchiadau i Mandy a Clare am lwyddo cael newid gan Gyngor Gwynedd o statws y maes parcio y tu ôl i Ty Gorsaf o Arhosiad Hir i Arhosiad Byr. Bydd y maes parcio hefyd am ddim o 6pm (4pm yn y gaeaf) nes 10am y bore wedyn.

3.6 NATWEST BANK CAU YN BLAENAU FFESTINIOG (Eitem 5.5)

Roedd Clare wedi ysgrifennu at Banc y Natwest ond nid oedd wedi derbyn ateb. Mae'r banc yn cau ar 23ain Medi 2015. Bydd cyfleuster i dalu arian i mewn yn y Swyddfa Bost ym Mlaenau Ffestiniog. Bydd hefyd fan symudol Banc y Natwest yn ymweld bob dydd Llun 9:30-10:30. Bydd y twll yn y wal presennol sydd y tu allan i'r banc yn cael ei symud ryw bryd.

3.7 CYMDEITHAS HANES (Eitem 4.5)

Dywedodd Rhian bod tua 1,800 o bobl wedi ymweld ag arddangosfa'r Gymdeithas Hanes yn ystod haf 2015. Llongyfarchodd aelodau'r Siambr y Gymdeithas ar y llwyddiant trawiadol hwn.

4. NOSON GOLEUO A'R NOSON TÂN GWYLLT

Bydd y Noson Tân Gwyllt ar 5ed Tachwedd 2015 yng Nghae Peips. Nododd Kevin y gallai brynu pecyn tân gwyllt i greu arddangosfa 15-20 munud am rhwng £ 1,000 a £ 1,200 ac y gallai Eurwyn redeg yr arddangosfa. Nodwyd fod gan Blaenau Bendigedig ddigon o arian i brynu'r tan gwyllt ond byddai angen i'r aelodau ddod o hyd i ffyrdd i adennill y swm hwnnw a chynigwyd nifer o ddulliau:

- codi tâl mynediad yn yr unig fynedfa.
- casgliad mewn bwced.
- Byddai Kevin yn rhedeg stondin cŵn poeth gyda'r elw yn mynd i Flaenau Bendigedig.

Cytunwyd bod angen cyfarfod arall o Blaenau Bendigedig yn y dyfodol agos.
GWEITHREDU: CLARE BRITTON.

- Gellid gwahodd stondinau crefft a gofyn iddynt wneud cyfraniad.

• Cytunodd Mandy i holi am fwy o fanylion am far symudol. GWEITHREDU: MANDY WILLIAMS-DAVIES
Byddai angen gwirfoddolwyr i redeg stondinau ac i stiwardio. GWEITHREDU: PAWB
• Awgrymwyd y byddai Trefnydd wedi'i enwi ar gyfer y digwyddiad i gynorthwyo cynllunio a gweithredu ar y noson.
• Roedd angen taflen ar gyfer tudalen Facebook y Siambr a chytunodd Alister i gysylltu â Nia ar gyfer hyn. GWEITHREDU: ALISTER

Noson Goleuo:
Mae gorymdaith llusernau fel rhan o'r noson Goleuo yn y broses o gael ei drafod gyda'r ysgolion. Gofynwyd iddynt hefyd i ystyried cael gorymdaith gyda 'tealights' LED er byddai angen cyllid ar gyfer hyn. Bydd y groto tu ôl i Antur Stiniog eto ac byddai angen Neuadd yr Eglwys hefyd eto felly ni fyddai angen poeni dim am y pebyll a'r tywydd. Cytunwyd y byddai Chris yn archebu Neuadd yr Eglwys ar gyfer 3ydd Rhagfyr 2015. GWEITHREDU: CHRIS FOSBURY

5. UNRHYW FATER ARALL

5.1 Siop Jeff: Nodwyd bod y vinyls wedi cael eu tynnu o'r siop gan adael y ffenestri blaen yn edrych yn hyll iawn. Fodd bynnag, gan nad oedd gan y perchennog unrhyw gynlluniau i wella'r agwedd hon, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu a mynegi siom am gael gwared a'r vinyls. GWEITHREDU: CLARE BRITTON

5.2 Apwyntio Dirprwy Gadeirydd i'r Siambr Fasnach a Thwristiaeth: Cyhoeddodd Clare bod Gail Jordan wedi cynnig ei gwasanaeth fel Dirprwy Gadeirydd i'r Siambr. Roedd ganddi brofiad yn y sector elusennol fel y gallai weithio ar geisiadau am arian yn ogystal â helpu Alister gyda'r wefan. Cynigiodd y Cadeirydd y penodiad ac fe gytunwyd yn unfrydol gan yr aelodau oedd yn bresennol.

5.3 Go Below: Dywedodd Clare fod Miles Mowlding o Go Below a Rheilffordd Ffestiniog wedi cytuno ar dreial gan Go Below o defnyddio rhan o faes parcio y rheilffordd yn Nhanygrisiau fel eu canolfan fel y gellid ei symud o Fetws y Coed ac felly annog mwy o bobl i ddod i'r ardal. Mae Go Below yn awyddus i weithio gyda darparwyr llety yn yr ardal a chytunodd yr aelodau y gallai'r newid hwn fod yn dda iawn ar gyfer y dref.

Cyrrhaeddodd Sue Roberts y cyfarfod.

5.4 Gwefan y Siambr Fasnach a Thwristiaeth: Dywedodd Alister y bu niferoedd da yn ymweld â'r wefan. Cadarnhaodd fod Paypal wedi cael ei dynnu i ffwrdd. Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd yr aelodau nad oedd angen bod rhestr o aelodau ar y wefan a'u manylion cyswllt. Cytunodd Clare a Alister i ymweld â Delwedd i drafod gwelliannau i'r wefan. GWEITHREDU: CLARE AC ALISTER

Cafodd rhywfaint o wybodaeth ei diweddaru yn ddiweddar ar y wefan gan Alister a ofynnodd i aelodau gysylltu ag ef pryd bynnag y byddant yn sylwi ar unrhyw eitemau sydd wedi dyddio. Gofynnodd hefyd i'r aelodau fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod eu gwybodaeth eu hunain ar y wefan yn gyfredol gan fod hyn yn gyfrifoldeb yr unigolyn ac i anfon yr union destun ayb iddo i'w ychwanegu at y wefan. GWEITHREDU: HOLL AELODAU I WIRIO EU MANYLION AR Y WEFAN CYN Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd fod tudalen Facebook y Siambr wedi cael 8,784 o ymweliadau ym mis Awst 2015 a gofynnwyd i'r aelodau ddal i cyflwyno'u digwyddiadau i'w rhoi ar y dudalen Facebook a oedd wedi dod yn adnodd defnyddiol ar gyfer y gymuned leol.

5.5 Bryn Elltyd a National Ecohomes: Adroddodd John Whitehead y byddai Bryn Elltyd ar gau ar ddydd Sadwrn 12fed Medi 2015 gan ei fod i dderbyn ymweliad gan bobl o National Ecohomes i weld pa waith eco-gyfeillgar wedi cael ei wneud ym Mryn Elltyd. Gellir gweld gwybodaeth ar wefan Superhomes www.superhomes.org.uk

5.6 Digwyddiad Cenedlaethol Beicio Mynydd Lawr-allt event 19eg Medi 2015 yn Llechwedd: nodwyd bod disgwyl i oddeutu 3,000 o bobl fynychu'r digwyddiad hwn a drefnir yn genedlaethol. Byddai Leanne Wood hefyd yma ar y dyddiad hwnnw a chytunodd Mandy i anfon gwybodaeth at Alister ar gyfer y dudalen Facebook. GWEITHREDU: MANDY AC ALISTER

Ystyriodd yr Aelodau a ddylid gael stondin i annog ymwelwyr i ddod lawr i Flaenau Ffestiniog yn ogystal ag ymweld â'r digwyddiad. Cytunwyd y byddai dosbarthu taflenni yn syniad da gan ei fod wedi annog pobl i mewn i'r dref yn y digwyddiad diwethaf. Cytunodd Gail i gysylltu ag Antur Stiniog i holi am le. GWEITHREDU: GAIL JORDAN

5.7 Dathlu bywyd Bob Cole: Hysbysodd Meirion yr aelodau o gynulliad i ddathlu bywyd Bob Cole sydd i'w gynnal ar 3ydd Hydref 2015 yng Nghaffi Llyn yn Nhanygrisiau. Os hoffech fod yn bresennol, cysylltwch â carolandmick@gmail.com ymlaen llaw neu drwy neges destun ar 0777 608 8706 gan y bydd angen iddynt wybod y rhifau. Bydd casgliad yn y cyfarfod ar gyfer Dignity in Dying.

6. YMCHWIL GAN BY DAVID AYLWARD Ymchwilydd Ol-radd, Waterford Institute of Technology

Gwahoddodd Clare David i ddweud wrth yr aelodau am ei waith ymchwil ym Mlaenau Ffestiniog a pham ei fod yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd David ei fod yn ymchwilio i ddarparwyr twristiaeth bychain a sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd yn eu cymuned wledig. Yr oedd yn astudio Blaenau Ffestiniog ac Elora a Fergus yn Ontario, Canada. Mae astudiaeth tebyg wedi cael ei wneud yn y gorffennol yn Iwerddon a byddai'r astudiaeth hon hefyd yn cael ei chymharu â'r gwaith cynharach. Byddai'n cyfarfod cyn gymaint o bobl â phosibl yn ystod ei ymweliad. Dylai'r astudiaeth gael ei chwblhau erbyn diwedd 2016. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Siambr â ddiddordeb mewn cysylltu gyda chymheiriaid yng Nghanada. Awgrymwyd y gallai grant yn seiliedig ar gyswllt partneriaeth newydd o'r fath fod yn rhywbeth i'r Siambr ei hystyried. Dymunodd yr aelodau yn dda i David yn ei ymchwil.

Ymunodd Owain Williams a'r cyfarfod.

7. BANC Y NATWEST

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd Owain i geisio gwybodaeth gan Worldpay a yw taliadau digyswllt ('contactless') yn costio llai na chymryd cardiau debyd a chredyd gyda PIN. Dywedodd Owain y byddai hefyd yn gwahodd y cyswllt Worldpay i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd hefyd bod taliadau digyswllt yn awr wedi newid i uwchafswm o £ 30.00, ond gallant ond yn cael eu defnyddio 2 neu 3 gwaith y dydd. GWEITHREDU: OWAIN WILLIAMS

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Clare thanked Gaile Weir for hosting this evening's meeting at the Bridge Café.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 19eg Hydref 2015 yng Nghaffi De Niro's ym Mlaenau Ffestiniog.Diolchodd Clare i Gaile Weir am gael cynnal y cyfarfod heno yng Nghaffi'r Bont.